# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**WAM Care Homes Ltd.**

**Cartref Gofal Tŷ Mair**
**12 Bythynnod Pen y Gaer**
**Llanelli**
**SA14 8AG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# WAM Care Homes Ltd.

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | WAM Care Homes Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 74 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 a 23 Awst 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn i adolygu'r gwelliannau a wnaed mewn perthynas â'r hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth a'r meysydd i'w gwella.

Mae'r bobl yn hapus yn byw yng nghartref Tŷ Mair (WAM Care Homes Ltd). Mae'r staff gofal a'r nyrsys yn frwdfrydig, yn trin y bobl ag urddas a pharch ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser bob dydd, a hynny naill ai yn eu hystafelloedd neu yng nghwmni eraill mewn amrywiaeth o ardaloedd cymunedol. Mae teulu a ffrindiau'r bobl yn ymweld â'r cartref yn aml ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau wrth ymweld. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gweithio'n dda fel tîm ar draws pob lefel a bod pethau wedi gwella ar gyfer y bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd lle mae'r ardaloedd cymunedol yn groesawgar ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae'r décor yn creu naws gartrefol. Gwnaed gwelliannau ardderchog i goridorau'r ystafelloedd gwely. Mae'r bobl, lle y bo'n bosibl, wedi cael bod yn rhan o'r broses o bersonoli'r coridorau a'r amgylchedd dan do i'w helpu i ganfod eu ffordd.

Gwnaed rhai gwelliannau i drefniadau goruchwylio a monitro'r gwasanaeth gan yr unigolyn cyfrifol. Caiff systemau eu datblygu a'u rhoi ar waith. Cyflwynwyd yr hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn yr arolygiad blaenorol. Mae angen gwneud gwelliannau pellach. Caiff hyn ei adolygu yn yr arolygiad nesaf.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am y ffordd i dreulio eu hamser. Gwelwyd y staff gofal yn gofyn i'r bobl ble yr hoffent fynd neu eistedd a beth hoffent ei wneud e.e., ymuno â gweithgaredd, cael diod, gwylio'r teledu, gwrando ar gerddoriaeth ac ati. Gwelsom y staff yn darparu gweithgareddau a rhyngweithiadau pan oeddent yn gallu ac roedd y bobl yn eu mwynhau. Gwelsom y bobl yn chwerthin, yn gwenu, ac yn rhyngweithio â'r staff gofal a'i gilydd.

Mae'r staff yn gwrando ar farn y bobl am eu gofal a'u cymorth ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob person. Caiff y bobl a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol lle y bo'n bosibl, a chaiff hyn ei gofnodi. Mae gan y bobl y wybodaeth sydd ei hangen arnynt megis y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r weithdrefn gwyno. Mae systemau ar waith i fonitro a chofnodi pryderon a chwynion ac unrhyw gamau a gymerwyd gan y darparwr.

Ni all y bobl fod yn sicr bod ansawdd y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i adolygu, i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl. Er ein bod wedi gweld rhai gwelliannau i drefniadau goruchwylio a monitro'r gwasanaeth gan yr unigolyn cyfrifol, nid yw'r systemau wedi cael eu hymgorffori mewn ymarfer a'u datblygu'n llawn eto. Cyhoeddwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn ystod yr arolygiad diwethaf ac mae angen gwneud gwelliannau pellach.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu bwrw ati i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg i bobl heb fod angen iddynt ofyn am hynny – mae siaradwyr Cymraeg ymhlith y bobl yn y cartref ac mae rhai aelodau o'r staff hefyd yn siarad Cymraeg.

## Gofal a Chymorth

Caiff anghenion y bobl, ynghyd ag amrywiaeth o wybodaeth, eu hystyried cyn iddynt gael eu derbyn i'r cartref. Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol megis gweithwyr cymdeithasol, llety cartref blaenorol a dogfennau rhyddhau o'r ysbyty. Yna bydd uwch-aelodau o'r staff yn defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu cynlluniau personol gan gynnwys asesiadau risg clir i gynnal annibyniaeth y bobl gymaint â phosibl. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl gyda'r holl wybodaeth berthnasol a'r asesiadau risg sy'n ymwneud â'r unigolyn.

Mae ffeiliau personél y staff yn dangos bod y darparwr wedi rhoi prosesau recriwtio trylwyr ar waith. Mae'r wybodaeth am hyfforddiant a ddarperir yn dangos bod y staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf ac mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer y rhai sydd ei angen. Hefyd, mae'r staff yn cael hyfforddiant arbenigol a/neu sy'n benodol i'r unigolyn i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi'r unigolyn â'i holl anghenion. Bydd y trefniadau i ddatblygu ac ymgorffori'r systemau i fonitro, archwilio a gwella'r gwasanaeth gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn gwella canlyniadau ar gyfer y bobl sy'n byw yn y cartref. Caiff hyn ei adolygu yn yr arolygiad nesaf.

Mae polisïau a gweithdrefnau manwl gan y darparwr i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth a gall y staff gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen.

Cyhoeddwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer gofal a chymorth yn yr arolygiad diwethaf. Mae'r darparwr wedi cymryd y camau gweithredu hanfodol ac mae gwelliannau wedi'u gwneud.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn gynnes ac yn lân, a dywed y bobl eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus. Mae'r ystafelloedd gwely yn fawr ac wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r unigolyn, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a dodrefn. Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar yn hybu annibyniaeth y bobl gymaint â phosibl. Mae'r coridorau llydan yn helpu'r bobl na allant symud yn dda a sicrhau bod digon o le ar gyfer y cyfarpar a ddefnyddir yn rheolaidd gan y bobl, megis teclynnau codi a chymhorthion sefyll.

Mae'r gwaith i addurno coridorau'r ystafelloedd gwely i helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o amgylch yr adeilad wedi'i gwblhau. Dywedodd y bobl wrthym fod y newidiadau a wnaed i'r coridorau wedi'u helpu i symud o gwmpas yn rhydd ac i ddod o hyd i'w hystafelloedd gwely yn annibynnol. Cawsom hefyd wybod gan y staff eu bod wedi sylwi bod y bobl yn gallu canfod eu ffordd o gwmpas yn well ac mae hyn wedi'u helpu nhw hefyd. Lle y bo'n bosibl, ymgynghorwyd â'r bobl am yr hyn y byddent yn hoffi gweld ar goridorau eu hystafelloedd gwely, ac roeddem yn gallu cadarnhau y cafodd ceisiadau unigol am luniau penodol a gwybodaeth eu dilyn wrth i ni gerdded o amgylch y cartref.

Gall y bobl gael mynediad i erddi cymunedol pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mae gan y rhain ardaloedd eistedd a chysgod fel y gall y bobl gymdeithasu'n gyfforddus. Gwelsom botiau plannu uchel er mwyn i'r bobl allu eu cyrraedd a helpu i arddio.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Nid oes unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002. Mae cyfarwyddiadau clir yn cael eu harddangos yn y cartref i nodi'r hyn y dylid ei wneud os bydd tân.

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn. Caiff cynlluniau personol, cofnodion personél y cyflogeion a chofnodion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) eu storio'n ddiogel mewn swyddfa dan glo a dim ond yr unigolion hynny sydd ag awdurdod i'w gweld all gael gafael arnynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y tîm arwain a rheoli yn meddu ar y cymwysterau a'r profiadau gofynnol a'u bod wedi cofrestru â'r cyrff proffesiynol perthnasol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi holiaduron cyfweliadau ymadael ar waith ac wedi gallu cwblhau sawl un o'r rhain gyda rhai o'r staff sydd wedi gadael. Mae hyn wedi helpu i nodi unrhyw themâu neu gamau gweithredu sydd eu hangen i gynnal lefelau staff. Bu gwelliannau i drosiant staff yn y gwasanaeth. Mae'r gostyngiad yn nifer y staff sy'n gadael, a thîm cyson o staff yn cefnogi iechyd a llesiant y bobl oherwydd cymysgedd sgiliau'r staff, profiad, a pharhad staff.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi cwblhau'r adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwe mis ac ymweliadau â'r Unigolyn Cyfrifol bob tri mis. Mae rhai gwelliannau wedi'u gwneud i drefniadau monitro a goruchwylio'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys monitro cwympiadau, damweiniau/digwyddiadau, cwynion/pryderon, atgyfeiriadau diogelu, cynlluniau personol, ffeiliau staff, cofnodion hyfforddiant ac yn y blaen. Mae systemau wedi cael eu rhoi ar waith, ond nid ydynt wedi cael eu gweithredu a'u hadolygu'n llawn eto gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae angen gwneud gwelliannau pellach i sicrhau bod yr Unigolyn Cyfrifol yn adolygu gwybodaeth ac yn penderfynu ar gamau gweithredu i wella'r gwasanaeth yn barhaus. Cyhoeddwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn ystod yr arolygiad blaenorol a bydd gwelliannau yn cael eu hadolygu yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r matrics hyfforddiant, y matrics goruchwylio a gwybodaeth staff Gofal Cymdeithasol Cymru a ddarperir gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr wedi cael eu diweddaru ac maent yn rhoi darlun clir o ble mae'r gwasanaeth yn sefyll. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol yn ogystal â hyfforddiant arbenigol sy'n benodol i'r unigolyn, i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl. Mae unrhyw hyfforddiant sydd ei angen wedi cael ei drefnu neu wrthi'n cael ei drefnu ac yn aros am ddyddiadau. Mae'r trefniadau goruchwylio yn gyfredol, a gwelsom gynllun clir ar gyfer goruchwylio'r staff yn y dyfodol.

Caiff gwybodaeth am gyflogaeth ei phrosesu a'i chofnodi'n rheolaidd.  Roedd ffeiliau'r staff a wiriwyd yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac roedd yn gyfredol. Tynnwyd sylw at hyn fel maes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf ac mae'r darparwr wedi cymryd y camau gofynnol ac wedi cydymffurfio.

Mae'r staff gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o drefn chwythu'r chwiban ac yn adrodd am bryderon. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr systemau ar waith i fonitro cwynion a phryderon ac maent yn goruchwylio'r camau sydd wedi'u cymryd yn dda a'r hyn sydd angen ei wneud.

Dywedodd y rheolwr newydd, sydd wedi bod yn ei swydd ers mis Hydref 2023, ei fod yn cael cymorth da gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r dirprwy ac yn cael cyfarfodydd â'r Unigolyn

Cyfrifol i drafod yr hyn sydd ei angen. Nid yw wedi cael ei sesiynau goruchwylio eto ond roedd yn gallu dangos i ni yr hyn sydd wedi'i drefnu i gael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf.

Dywedodd y staff wrthym fod *“X (rheolwr) is brilliant, it’s really positive here now and the morale is great”* and *“the management team (rheolwr, dirprwy a'r Unigolyn Cyfrifol) is really good now, the new manager is great, and the deputy is too. When I speak to them about things, I know they are listening and that they will act on what is said”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 66 | Nid yw'r darparwr wedi dangos ei fod yn goruchwylio rheolwyr y gwasanaeth, nac wedi sicrhau bod y bobl, y staff, y teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn cael cyfle i leisio barn a chyflwyno sylwadau. Nid yw wedi gweithredu'n briodol mewn ymateb i bryderon na chwynion ychwaith, ac ni lwyddodd i sicrhau cyfrinachedd wrth ymdrin â phryderon a godwyd gan bartïon allanol. | Heb Gyflawni |
| 21 | Nid yw’r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd sy’n amddiffyn, yn hyrwyddo ac yn cynnal diogelwch a llesiant yr unigolion. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Nid yw'r amgylchedd yn cefnogi'r bobl i lywio'r cartref yn annibynnol na chanfod eu hystafelloedd yn annibynnol, gan leihau eu gallu i gyflawni eu canlyniadau personol. Tra bod y mannau cymunedol wedi'u haddurno ac yn gartrefol. Yr un paent gwyn diflas sydd ar waliau'r coridorau i gyd gan greu dryswch a phenbleth. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod goruchwyliaeth ar gyfer y staff yn cael ei chynnal yn effeithiol ac mae'n darparu ar gyfer datblygiad y staff. Nid yw’r darparwr yn sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant gorfodol ac arbenigol gofynnol i ddarparu’r gofal a’r cymorth sydd eu hangen. | Cyflawnwyd |
| 35 | Nid oes gan y darparwr systemau dethol a fetio trwyadl ar waith i'w alluogi i wneud penderfyniad ar benodi neu wrthod pob ymgeisydd o blith y staff a'r gwirfoddolwyr. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn atodlen 1 y Rheoliadau. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwirio cywirdeb geirda a chyflogaeth | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/01/2024